

Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy'r A494 — Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WeITAG

A494 River Dee Bridge Replacement — WeITAG Stage 2 Public Consultation



Croeso

Croeso i ymgynghoriad cyhoeddus Cam 2 WeITAG ar gyfer Cynllun Adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy'r A494 (y "Cynllun"). Rydyn ni'n cynnal yr ymgynghoriad hwn i gyflwyno ein rhestr fer o opsiynau a'r opsiwn sy'n perfformio orau ar gyfer y Cynllun. Bydden ni'n croesawu unrhyw farn neu sylwadau sydd gennych chi am yr opsiynau.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg rhwng dydd **Llun 9 Rhagfyr 2024 a 11.59yh nos Fawrth 4 Mawrth 2025**.


Cefndir

Mae Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494 ar hyn o bryd yn rhoi llwybr hollbwysig i'r traffig sy'n croesi'r ffin rhwng gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr, a'r tu hwnt i hynny. Mae hi'n cysylltu pobl, cymunedau a busnesau â'i gilydd.

Mae'r bont yn cludo tua 68,400 o gerbydau bob dydd*. Mae'r traffig prysur hwn yn golygu y byddai cau'r bont er mwyn adnewyddu'r rhannau sydd wedi dirywio yn tarfu'n ddifrifol ar bobl sy'n teithio yn yr ardal ac yn cael effaith niweidiol ar economi'r gogledd.

Cyflwr strwythurol gwael dec y bont bresennol yw'r rheswm pam fod angen pont newydd. Mae'r arolygon a'r gwaith monitro hyd yma wedi casglu bod angen gwneud atgyweiriadau cyson a bod risg y gallai fod angen atgyweiriadau ac ymyriadau mawr. Byddai hynny'n golygu bod angen cau'r bont yn amlach bob blwyddyn. Os na wneir dim byd, bydd y bont yn parhau i ddirywio. Gallai hynny ofyn am gymryd camau fel cyfyngu ymhellach ar y pwysau y gall y bont ei gario, a chau lonydd yn y tymor byr i'r tymor canolig. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, gallai olygu cau'r bont yn gyfan gwbl.

* Llif traffig cyfartalog dros saith niwrnod ar sail data a gyfrifwyd yn 2024.



Map yn dangos lleoliad Pont Afon Dyfrdwy'r A494 rhwng Cymru a Lloegr, a'r prif ffyrdd lleol
Map showing the A494 River Dee Bridge location between Wales and England and major local roads



Map yn dangos lleoliad Pont Afon Dyfrdwy'r A494 rhwng Queensferry a Garden City
Map showing the A494 River Dee Bridge location between Queensferry and Garden City

Welcome

Welcome to the WeITAG Stage 2 public consultation for the River Dee Bridge Replacement Scheme (the "Scheme"). We are holding this consultation to present our shortlist of options and best performing option for the Scheme. We would like any views or comments that you may have on the options.

The consultation will run from **Monday 9 December 2024 until 11.59pm on Tuesday 4 March 2025**.

Background

The A494 River Dee Bridge provides a vital connection for cross-border traffic between north Wales, the north-west of England and beyond, connecting people, communities and businesses.







The bridge carries approximately 68,400 vehicles per day*. This volume of traffic means that closure of the bridge to replace the deteriorated parts would cause severe disruption for people travelling in the area and adversely impact the economy in north Wales.

The need for a new bridge is driven by the poor structural condition of the existing bridge deck. The inspections and monitoring to date have concluded that the frequency of repairs and the risk of major repair and intervention requiring the closure of the bridge is growing year-on-year. If nothing is done, the bridge will continue to deteriorate which may require measures such as further weight restrictions and lane closures in the short to medium term and result in closure in the medium to long term.

* Average seven day daily flow based on 2024 count data.

Datblygu ateb

Developing a solution

	Amcan Cynllunio Trafnidiaeth Transport Planning Objective	Beth mae hyn yn ei olygu What does this mean?
	Cynnal cysylltedd coridor strategol yr A494 drwy fynd i'r afael â phont afon Dyfrdwy sydd wedi cyrraedd diwedd ei hoes. Maintain connectivity of the A494 strategic corridor by addressing the life expired River Dee Bridge.	Cadw'r A494 ar agor drwy ddatrys y problemau gyda Phont bresennol Afon Dyfrdwy. Keep the A494 open by addressing the problems with the current River Dee Bridge.
	Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i newid dulliau teithio drwy wella'r ddarpariaeth o ddulliau teithio amgen. Maximise opportunities for modal shift through better provision for alternative modes.	Ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, neu gerdded, olwyno a beicio. Make it easier for people to travel by public transport, walking, wheeling and cycling.
	Lleihau cyfanswm allyriadau carbon y cynllun drwy roi mesurau lleihau carbon ar waith wrth ddylunio, adeiladu a gweithredu. Minimise Scheme whole life carbon emissions through applying carbon reduction measures to design, construction and operation.	Lleihau faint o garbon sy'n cael ei greu yn ystod y gwaith adeiladu a phan fydd y Cynllun yn weithredol. Reduce how much carbon is created during construction and when the Scheme is in use.
	Cynnal a chadw'r amgylchedd lleol, a'i ehangu drwy sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn y tymor hir. Maintain and enhance the local environment by securing long term net benefit for biodiversity.	Cadw a gwella'r amgylchedd lleol gyda mwy o wyrddni a gwarchod cynefinoedd. Keep and improve the local environment with more greenery and protection of habitats.
	Gwella cadernid ar goridor yr A494 drwy leihau effeithiau digwyddiadau a damweiniau a chynyddu diogelwch ar gyfer defnyddwyr y ffordd a staff cynnal a chadw. Improve resilience on the A494 corridor by minimising the impacts of incidents and accidents and enhancing safety for road users and maintenance personnel.	Lleihau oedi os oes damweiniau a gwneud y ffordd hon yn saffach. Reduce delays if there are accidents and make this road safer.
	Cynnal cysylltedd ar hyd coridor strategol yr A494 yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn lleihau'r effaith ar breswylwyr, busnesau, a thraffig lleol a strategol. Maintain connectivity along the A494 strategic corridor during construction to minimise impacts on residents, businesses, strategic and local traffic.	Cadw'r ffordd bresennol ar agor a lleihau effaith y gwaith adeiladu gymaint â phosib. Keep the existing road open while reducing construction impacts where possible.

Yn 2018, aethon ni ati i gynnal arfarniad a edrychai ar yr opsiynau ar gyfer pont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy'r A494. Yn dilyn [ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd](#) ym mis Chwefror 2023, rydyn ni wedi adolygu Amcanion Cynllunio Trafnidiaeth y Cynllun er mwyn i'r rheini gyd-fynd â'r pedwar prawf newydd ar gyfer adeiladu ffyrdd.

Arfarnwyd y Cynllun drachefn gan ddefnyddio Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2024. Ymhlith yr ystyriaethau sy'n berthnasol i'r Cynllun y mae peidio â chreu traffig ychwanegol, lleihau'r defnydd o garbon cymaint ag y bo modd, ac annog pobl i newid eu dulliau teithio.

Rydyn ni wedi cwblhau Cam 0 WelTAG (Achos dros Newid) a Cham 1 WelTAG (Achos Busnes Amlinellol). Fel rhan o'r Achos dros Newid, aethon ni ati i ddiwygio amcanion y Cynllun er mwyn adlewyrchu ein blaenoriaethau a'n huchelgeisiau diweddaraf o ran polisi.

Mae'r Cynllun wedi'i leoli mewn ardal adeiledig a bydd angen rhoi sylw i sawl elfen sy'n cyfyngu'n sylweddol arno. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cyfyngiadau amgylcheddol:** mae afon Dyfrdwy yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- **Tai a busnesau:** ceir eiddo preswyl a busnesau gerllaw'r bont ar ddwy ochr y ffordd.
- **Cyfyngiadau adeiladu:** lleihau effaith y cynllun yn ystod y gwaith adeiladu, e.e. cadw'r traffig presennol i lifo ar yr A494.
- **Cyfleustodau:** y ceblau a'r pibellau trydan, dŵr, carthffosiaeth, nwy a chyfathrebu sy'n rhan o ardal y Cynllun ar hyn o bryd.
- **Draen Queensferry:** y brif afon sy'n llifo drwy ardal y Cynllun.
- **Lleoliad arfaethedig y gwaith adeiladu:** gweithio yn afon Dyfrdwy a drosti, a honno'n ddyfrffordd sy'n cael ei defnyddio i fordwyo.
- **Asedau dŵr:** mae gwaith trin dŵr gerllaw'r Cynllun, a hwnnw'n weithredol.
- **Rheilffordd:** mae lein reilffordd arfordir y gogledd yn mynd drwy ardal y Cynllun.

In 2018 we undertook an appraisal that looked at options to replace the A494 River Dee Bridge. Following the [Welsh Government's response to the Roads Review](#) in February 2023 we have reviewed the Scheme Transport Planning Objectives to align with the new four road building tests.

The Scheme was re-appraised using the updated Welsh Transport Appraisal Guidance (WelTAG) published in February 2024. Considerations for the Scheme include not creating additional traffic, minimising carbon and encouraging modal shift.

We have completed WelTAG Stage 0 (Case for Change) and WelTAG Stage 1 (Outline Business Case). As part of the Case for Change we revised the Scheme's objectives to reflect our latest policy ambitions and priorities.

The Scheme is located in a built-up area and has challenging constraints that will need to be considered. These include:

- **Environmental:** the River Dee is designated as a Special Area of Conservation (SAC) and Site of Special Scientific Interest (SSSI).
- **Houses and businesses:** existing residential properties and business near the bridge on both sides of the road.
- **Construction:** minimising the impact of the scheme during construction e.g. maintaining existing traffic flows on the A494.
- **Utilities:** existing electricity, water, sewage, gas and communication cables and pipes running through the Scheme.
- **Queensferry Drain:** main river which flows through the Scheme.
- **Proposed construction location:** working in and over the river Dee which is a navigable waterway.
- **Water assets:** operational water treatment works adjacent to the Scheme.
- **Railway line:** north Wales coast railway line which runs through the Scheme.

Datblygu opsiynau

Option development

Adnabod opsiynau

Drwy ein dealltwriaeth o'r problemau presennol a heriau'r dyfodol, aethon ni ati i ganfod opsiynau posibl sy'n ceisio cyflawni amcanion y Cynllun.

Mae'r opsiynau ar gyfer y Cynllun wedi'u datblygu gan ddefnyddio WelTAG, sef arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio ac arfarnu yn y maes trafndiaeth. Mae WelTAG yn cyflwyno dull strwythuredig o gynllunio prosiectau, a hwnnw'n dechrau drwy edrych ar yr achos dros newid cyn symud drwy gyfres o gamau rhesymegol wrth ddatblygu prosiect, ei gyflawni, a'i adolygu ar y diwedd. Mae'r camau hyn yn cynnwys canfod amcanion, dewis a dethol opsiynau, a datblygu achos busnes o blaid yr opsiwn sydd wedi'i ddewis. Mae'r camau hefyd yn cynnwys monitro ac arfarnu'r prosiect maes o law.

Gwneud dim byd

Byddai'r opsiwn 'gwneud dim byd' yn golygu bod y problemau strwythurol yn parhau, a byddai hyn yn arwain yn y pen draw at sefyllfa lle byddai Pont Afon Dyfrdwy yn dirywio. Byddai'n arwain at nifer o effeithiau negyddol ar yr economi ranbarthol a chenedlaethol, yn sgil tarfu ar lif traffig strategol, gan gynnwys cludo nwyddau i'r gogledd ac o'r gogledd.

Byddai'r senario 'gwneud dim byd' yn arwain at gyfyngu'r pwysau y mae modd i'r bont ei gario, at gau lonydd, ac at y posibilrwydd o gau Pont Afon Dyfrdwy yn llwyr, a fyddai'n achosi tarfu, tagfeydd ac oedi sylweddol i'r cyhoedd, i fusnesau ac i gerbydau sy'n cludo nwyddau.

Byddai cau'r A494 dros afon Dyfrdwy yn creu mwy o draffig ar lwybrau eraill, na fyddai'n gallu dygymod â'r traffig ychwanegol. Efallai y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar gerddwyr a beicwyr; yn effeithio ar ddiogelwch y ffyrdd, ansawdd yr aer a llygredd sŵn; ac yn tarfu ar lwybrau trafndiaeth gyhoeddus.

Gwneud y lleiafswm

Byddai'r opsiwn 'Gwneud y lleiafswm' yn golygu adnewyddu'r bont bresennol. Byddai hyn yn golygu tynnu dec y bont yn llwyr oddi yno, ailadeiladu'r dec, disodli cyfosiadau'r bont a'r ffyrdd tuag ati, ac atgyweirio trawstiau a phileri afon y bont.

I wneud y gwaith adnewyddu hwn, byddai angen cau'r A494 yn llwyr i draffig tua'r dwyrain am gyfnod sylweddol, tra byddai angen cyfyngu ar led y ffordd a chyflymder y traffig tua'r gorllewin. Byddai cyfnod sylweddol arall wedyn lle byddai'r traffig yn teithio mewn un lôn wrthlif.

Rhagwelir y byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar y traffig yn ystod y gwaith adeiladu, yn lleol ac yn yr ardal ehangach, gan arwain at dagfeydd traffig ac oedi, ac at rywfaint o ail-lwybro traffig o'r A494 i lefydd eraill. At hynny, byddai'r gwaith adeiladu'n cael effaith niweidiol ar ansawdd yr aer ac yn creu sŵn. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at fanteision eraill fel newid dulliau teithio, gwella diogelwch y ffyrdd, a gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd. Dyma fanteision sydd i'w cael o dan yr opsiynau 'Gwneud rhywbeth'.

Gwneud rhywbeth

Cafodd rhestr hir ei llunio o 44 o opsiynau cychwynnol ar gyfer ymyrryd. Arfarnwyd yr opsiynau hyn wedyn i weld sut roedden nhw'n cyflawni amcanion y Cynllun ac yn ymateb i ystyriaethau ym meysydd dylunio, peirianneg, llesiant a'r amgylchedd. At hynny, profwyd i weld sut roedd y rhain yn cyfrannu at amcanion Strategaeth Drafndiaeth Cymru. O'r rhestr hir o opsiynau a arfarnwyd, lluniwyd rhestr fer o bump opsiwn. Mae'r rhain wedi'u disgrifio a'u darlunio ar y paneli canlynol. Rydyn ni bellach yn ymgynghori ynghylch yr opsiynau hyn sydd ar y rhestr fer, a bydden ni'n croesawu eich syniadau a'ch sylwadau.

Identifying options

Through our understanding of the current issues and future challenges, we identified potential options which aim to deliver the Scheme objectives.

The Scheme options have been developed using WelTAG, which is the Welsh Government guidance on planning and appraisal for transport. WelTAG sets out a structured approach to planning projects that starts with exploring the case for change and moves through a series of logical steps in developing a project, delivering it and finally reviewing it afterwards. These steps include identifying objectives, narrowing down options and then developing a business case for the chosen option. It also involves monitoring and evaluating the project afterwards.

Do nothing

The 'Do nothing' option would result in a continuation of structural issues and the eventual deterioration of the River Dee Bridge. This would result in several negative impacts to the regional and national economy from disrupted strategic traffic flows, including freight, to and from north Wales.

The 'Do nothing' scenario would lead to weight restrictions, lane closures and potential full closure of the River Dee Bridge causing significant disruption, congestion and delay to the travelling public, businesses and freight.

Closing the A494 at the River Dee would create more traffic on other routes that would not be able to accommodate the extra traffic. This may have a negative impact on walking and cycling, have a bearing on road safety, air quality and noise pollution as well as disruption to public transport routes.

Do minimum

The 'Do minimum' option would involve the renewal of the current bridge in-situ. This would involve the complete removal and reconstruction of the bridge deck, replacement works to the abutments and bridge approaches and repairs to the bridge beams and river piers.

To undertake the replacement work, the A494 would need to be closed completely to eastbound traffic for an extended period and westbound traffic limited to width and speed restrictions. There would then be a further extended period of traffic operating in single lane contraflow.

This is predicted to have a significant impact on traffic conditions during construction both locally and in the wider area resulting in traffic congestion, delays, and some traffic re-routing away from the A494 to alternative locations. In addition, there would be negative air quality and noise impacts during construction. This option would not deliver on the added benefits such as modal shift, road safety improvements and flood resilience offered by the 'Do something' options.

Do something

An initial longlist of 44 intervention options was identified and then appraised on how they meet the Scheme objectives and design, engineering, wellbeing, and environmental considerations. In addition, they were tested on how they contribute towards the objectives of the Wales Transport Strategy. From the longlist of option appraisal, a shortlist of five options was identified as described and illustrated on the following panels. We are now consulting on these shortlisted options and would welcome your thoughts and comments.



Pont Afon Dyfrdwy'r A494 ar hyn o bryd (tua'r gogledd)
Current A494 River Dee Bridge (northbound)




Pont Afon Dyfrdwy'r A494 ar hyn o bryd: Yr olygfa o lan ddwyreiniol yr afon
Current A494 River Dee Bridge: view from the eastern riverbank


Datblygu opsiynau

Option development

Opsw'n B	Opsw'n C	Opsw'n D	Opsw'n E	Opsw'n F
<p>Pont newydd dros afon Dyfrdwy ac iddi strwythur dwbl, ynghyd â chysylltiad teithio llesol yn yr isbont reilffordd bresennol.</p>	<p>Pont newydd dros afon Dyfrdwy ac iddi strwythur dwbl, ynghyd ag isbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio lleol.</p>	<p>Pont newydd dros afon Dyfrdwy ac iddi un strwythur, heb fod ar lwybr y ffordd bresennol, ynghyd ag isbont reilffordd newydd tua'r gorllewin.</p>	<p>Pont newydd dros afon Dyfrdwy ac iddi un strwythur, heb fod ar lwybr y ffordd bresennol, ynghyd â chysylltiad teithio llesol yn yr isbont reilffordd bresennol.</p>	<p>Pont newydd dros afon Dyfrdwy ac iddi un strwythur, heb fod ar lwybr y ffordd bresennol, ynghyd ag isbont reilffordd ar wahân ar gyfer teithio lleol.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn golygu codi dwy bont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy. • Byddai cyn lleied o waith â phosibl yn cael ei wneud ar y rheilffordd, gyda llain ymyl bresennol y briffordd drwy'r strwythur yn cael ei haddasu i greu llwybr teithio llesol. • Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn golygu codi dwy bont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy. • Byddai isbont newydd yn cael ei chodi drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol. • Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn golygu codi pont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy, a hynny'n union wrth ei hochr i fyny'r afon. • Byddai'r bont bresennol dros yr afon naill ai'n cael ei defnyddio at ddiben newydd, ar wahân i foduro, neu'n cael ei dymchwel. • Byddai isbont newydd yn cael ei chodi drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer traffig ffordd tua'r gorllewin a llwybr teithio llesol. • Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn golygu codi pont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy, a hynny'n union wrth ei hochr i fyny'r afon. • Byddai cyn lleied o waith â phosibl yn cael ei wneud ar y rheilffordd, gyda llain ymyl bresennol y briffordd drwy'r strwythur yn cael ei haddasu i greu llwybr teithio llesol. • Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn golygu codi pont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy, a hynny'n union wrth ei hochr i fyny'r afon. • Byddai isbont newydd yn cael ei chodi drwy arglawdd y rheilffordd ar gyfer llwybr teithio llesol. • Hyd at 3km o lwybrau teithio llesol newydd a gwell.

Option B	Option C	Option D	Option E	Option F
<p>New twin structure River Dee Bridge plus active travel link within existing rail underbridge.</p>	<p>New twin structure River Dee Bridge plus separate rail underbridge for active travel.</p>	<p>New off-line single structure River Dee Bridge plus new westbound rail underbridge.</p>	<p>New off-line single structure River Dee Bridge plus active travel link within existing rail underbridge.</p>	<p>New off-line single structure River Dee Bridge plus separate rail underbridge for active travel.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • This would replace the River Dee Bridge with two new bridges. • Work at the railway would be minimised with the existing highway verge area through the structure being reconfigured to facilitate an active travel path. • Up to 3km of new and improved active travel paths. 	<ul style="list-style-type: none"> • This would replace the River Dee Bridge with two new bridges. • A new underbridge would be constructed through the railway embankment for an active travel path. • Up to 3km of new and improved active travel paths. 	<ul style="list-style-type: none"> • This would replace the River Dee Bridge with a new bridge immediately upstream. • The existing river bridge would either be re-purposed for a non-motoring usage or demolished. • A new underbridge would be constructed through the railway embankment for westbound road traffic and an active travel path. • Up to 3km of new and improved active travel paths. 	<ul style="list-style-type: none"> • This would replace the River Dee Bridge with a new bridge immediately upstream. • Work at the railway would be minimised with the existing highway verge area through the structure being reconfigured to facilitate an active travel path. • Up to 3km of new and improved active travel paths. 	<ul style="list-style-type: none"> • This would replace the River Dee Bridge with a new bridge immediately upstream. • A new underbridge would be constructed through the railway embankment for an active travel path. • Up to 3km of new and improved active travel paths.





Y bont bresennol sydd i'w dymchwel
Existing bridge to be demolished

Garden City

Afon Dyfrdwy
River Dee

Mynediad dros dro i'r compownd adeiladu
Temporary access to construction compound

Pont afon newydd (traffig i'r dwyrain)
New river bridge (eastbound traffic)

Pont afon newydd (traffig i'r gorllewin)
New river bridge (westbound traffic)

Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
Deeside Leisure Centre

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coastal Path

Gwyrriad afon Queensferry Drain
Diverted Queensferry Drain river

Gorsaf bwmpio afon newydd
New river pumping station

Y bont reilffordd bresennol
Existing railway bridge

Mynediad newydd i Riverside
New access to Riverside

Ardal arfaethedig i gerbydau droi, a phwynt mynediad cynnal a chadw
Proposed turning head and maintenance access point

Gwaith Trin Dŵr
Water Treatment Works

Llwybr cyd-ddefnyddio newydd
New shared use path

Archfarchnad Asda
Asda Superstore

Pont reilffordd newydd ar gyfer llwybr teithio llesol
New railway bridge for active travel route

Cysylltiad y llwybr cyd-ddefnyddio newydd i Factory Road
New shared use path connection to Factory Road

Gwyrriad afon Queensferry Drain
Diverted Queensferry Drain river

Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru
North Wales Coast Railway Line

Factory Road

Cyfnwidfa Queensferry
Queensferry Interchange

B5129

Cysylltiadau'r llwybr cyd-ddefnyddio newydd i'r rhwydwaith presennol
Shared use path connections into the existing network


Pentre

Opsion C Trefniant Cyffredinol
Option C General Arrangement

Allwedd / Key

- Ffin y safle
Site boundary
- Llwybr cyd-ddefnyddio
Shared use path
- Ffordd Gerbydau
Carriageway
- Ffordd fynediad / ardal cynnal a chadw
Maintenance access road / area
- Gwelliannau bioamrywiaeth (ardal tirlunio meddal)
Biodiversity enhancements (soft landscaping area)
- Gwaith plannu / tirlunio
Planting / landscaping
- Llethr gwaith pridd
Earthworks slope
- Gwaith gwella llwybrau
Footpath improvement works
- Ffos / sianel ddraenio
Drainage channel / ditch
- Compownd adeiladu / ardal waith (dros dro)
Construction compound / working area (temporary)
- Cwlfert
Culvert
- Cefnfur draenio
Drainage headwall
- Wal gynnal
Retaining wall

Graddfa: 0 125m 250m
Scale:



Y bont bresennol sydd i'w dymchwel*
Existing bridge to be demolished*

Mynediad dros dro i'r compownd adeiladu
Temporary access to construction compound

Pont afon newydd
New river bridge

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coastal Path

Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy
Deeside Leisure Centre

Gwyrriad afon Queensferry Drain
Diverted Queensferry Drain river

Gorsaf bwmpio afon newydd
New river pumping station

Y bont reilffordd bresennol
Existing railway bridge

Mynediad newydd i Riverside
New access to Riverside

Ardal arfaethedig i gerbydau droi, a phwynt mynediad cynnal a chadw
Proposed turning head and maintenance access point

Gwaith Trin Dŵr
Water Treatment Works

Llwybr cyd-ddefnyddio newydd
New shared use path

Archfarchnad Asda
Asda Superstore

Cysylltiad y llwybr cyd-ddefnyddio newydd i Factory Road
New shared use path connection to Factory Road

Pont reilffordd newydd
New railway bridge

Rheilffordd Arfordir Gogledd Cymru
North Wales Coast Railway Line

Factory Road

Gwyrriad afon Queensferry Drain
Diverted Queensferry Drain river

Cyfnwidfa Queensferry
Queensferry Interchange

B5129

Cysylltiadau'r llwybr cyd-ddefnyddio newydd i'r rhwydwaith presennol
Shared use path connections into the existing network


Pentre

Opsion D Trefniant Cyffredinol
Option D General Arrangement

Allwedd / Key


- Ffin y safle
Site boundary
- Llwybr cyd-ddefnyddio
Shared use path
- Ffordd Gerbydau
Carriageway
- Ffordd fynediad / ardal cynnal a chadw
Maintenance access road / area
- Gwelliannau bioamrywiaeth (ardal tirlunio meddal)
Biodiversity enhancements (soft landscaping area)
- Gwaith plannu / tirlunio
Planting / landscaping
- Llethr gwaith pridd
Earthworks slope
- Gwaith gwella llwybrau
Footpath improvement works
- Ffos / sianel ddraenio
Drainage channel / ditch
- Compownd adeiladu / ardal waith (dros dro)
Construction compound / working area (temporary)
- Cwlfert
Culvert
- Cefnfur draenio
Drainage headwall
- Wal gynnal
Retaining wall
- * Yn amodol ar gadarnhau ac adolygu'r defnydd arall
Subject to confirmation and review of alternative usage


Graddfa: 0 125m 250m
Scale:



Opsion E Trefniant Cyffredinol - Opsiwn sy'n Perfformio Orau
Option E General Arrangement - Best Performing Option

- Allwedd / Key**
- Ffin y safle
Site boundary
 - Llwybr cyd-ddefnyddio
Shared use path
 - Ffordd Gerbydau
Carriageway
 - Ffordd fynediad / ardal cynnal a chadw
Maintenance access road / area
 - Gwelliannau bioamrywiaeth (ardal tirlunio meddal)
Biodiversity enhancements (soft landscaping area)
 - Gwaith plannu / tirlunio
Planting / landscaping
 - Llethr gwaith pridd
Earthworks slope
 - Gwaith gwella llwybrau
Footpath improvement works
 - Ffos / sianel ddraenio
Drainage channel / ditch
 - Compownd adeiladu / ardal waith (dros dro)
Construction compound / working area (temporary)
 - Cwlfert
Culvert
 - Cefnfur draenio
Drainage headwall
 - Wal gynnal
Retaining wall
 - * Yn amodol ar gadarnhau ac adolygu'r defnydd arall
Subject to confirmation and review of alternative usage

Graddfa: 0 125m 250m
 Scale: 
 © 2020 Microsoft Corporation © DigitalGlobe © CNES (2020) Distribution Airbus DS



Opsion F Trefniant Cyffredinol
Option F General Arrangement


Allwedd / Key

- Ffin y safle
Site boundary
- Llwybr cyd-ddefnyddio
Shared use path
- Ffordd Gerbydau
Carriageway
- Ffordd fynediad / ardal cynnal a chadw
Maintenance access road / area
- Gwelliannau bioamrywiaeth (ardal tirlunio meddal)
Biodiversity enhancements (soft landscaping area)
- Gwaith plannu / tirlunio
Planting / landscaping
- Llethr gwaith pridd
Earthworks slope
- Gwaith gwella llwybrau
Footpath improvement works
- Ffos / sianel ddraenio
Drainage channel / ditch
- Compownd adeiladu / ardal waith (dros dro)
Construction compound / working area (temporary)
- Cwlfert
Culvert
- Cefnfur draenio
Drainage headwall
- Wal gynnal
Retaining wall
- * Yn amodol ar gadarnhau ac adolygu'r defnydd arall
Subject to confirmation and review of alternative usage

Graddfa: 0 125m 250m
 Scale:



Yr opsiwn sy'n perfformio orau



Cynllun yr opsiwn i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy'r A494 sy'n perfformio orau (Opsw'n E)



Argraff arlunydd o'r opsiwn i adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy'r A494 sy'n perfformio orau (Opsw'n E), yn edrych i Queensferry

Yn ôl arfarniad WelTAG, yr opsiwn sy'n perfformio orau yw Opsw'n E. Mae'r opsiwn hwn wedi sgorio'n dda yn arfarniad WelTAG oherwydd yr elfennau pwysig hyn:

- Mae'n cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau a gofynion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
- Yr effaith leiaf bosibl wrth wneud y gwaith adeiladu, gan y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu hwnnw'n cael ei wneud heb darfu ar y traffig presennol sy'n defnyddio'r A494.
- Gwell cyfleoedd i leihau lefel y carbon yn ystod y gwaith adeiladu ac i aildefnyddio tir presennol i wella bioamrywiaeth.
- Llai o effaith ar asedau trydydd partiön fel rheilffordd arfordir y gogledd a chyflenwadau cyfleustodau cyhoeddus fel ceblau a phibellau trydan, dŵr/carthffosiaeth a nwy.
- Gwell cyfleusterau teithio llesol gyda chysylltiadau newydd.
- Llai o garbon a chostau cyfalaf yn ystod y gwaith adeiladu.

Mae'r opsiwn sy'n perfformio orau ar hyn o bryd (Opsw'n E) yn golygu adeiladu pont newydd i gludo dwy lôn o draffig tua'r dwyrain a'r gorllewin, ac adeiladu llwybr y bydd beicwyr a cherddwyr yn ei rannu. Byddai'r bont newydd yn cael ei chodi i'r de-ddwyrain o bont bresennol yr A494 dros afon Dyfrdwy. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei wneud oddi ar lwybr y

brifffordd bresennol, sy'n galluogi'r ffordd i aros ar agor yn ystod y rhan fwyaf o'r gwaith adeiladu.

Dyma brif nodweddion yr opsiwn sy'n perfformio orau:

1. **Pont newydd** i gario dwy lôn o draffig i'r ddau gyfeiriad.
2. **Llwybr i'w rannu rhwng cerddwyr a beicwyr**, yn rhedeg ar hyd ochr dde-ddwyrainol y gerbyttfordd orllewinol. Byddai hwn yn cysylltu â Llwybr Arfordir Cymru a llwybrau teithio llesol eraill yn yr ardal.
3. **Gwelliannau i ffordd bresennol yr A494 i'r dwyrain o'r man lle mae'r ffordd yn pasio o dan Reilffordd Arfordir y Gogledd.** Byddai hyn yn cynnwys creu llain galed newydd i'r ddau gyfeiriad sy'n cysylltu â'r lleiniau caled presennol i'r dwyrain o afon Dyfrdwy, gwella'r aliniad, a chreu systemau draenio cynaliadwy.
4. **Mynedfa newydd i'r chwith i mewn/i'r chwith allan** o gerbyttfordd orllewinol yr A494 i safle Sipsiwn a Theithwyr Riverside, i eiddo masnachol, ac i orsaf bwmpio ar yr afon.
5. **Dargyfeirio Draen Queenferry** (un o brif afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru), sydd wedi'i lleoli ar ochr dde-ddwyrainol yr A494 ac sy'n llifo ar hyn o bryd i gwlfert oddi tani, a hynny i'r gorllewin o Reilffordd Arfordir y Gogledd ac mewn sianel

agored i'r dwyrain o'r rheilffordd. Byddai darnau newydd o sianel agored yn cael eu creu ar ddwy ochr y rheilffordd, gyda rhan o'r cwlferd presennol o dan y rheilffordd yn cael ei chadw.

6. **Gorsaf bwmpio afon newydd a gollyngfa ddraenio i afon Dyfrdwy.**
7. **Gwaith gwella a lliniaru ym maes yr amgylchedd a bioamrywiaeth** gyda gwrthgloddiau ac ardaloedd o ystad feddal gan gynnwys creu lleiniau ymyl gyda blodau gwylt, pantiau, coetiroedd brodorol a glaswelltir dymunol.
8. **Dymchwel y bont bresennol, sef Pont Afon Dyfrdwy ar yr A494**, yn ddiwynnol ar gadarnhad ac adolygiad o'r defnydd amgen y gellid ei wneud ohoni.

Yr Amgylchedd

Byddai'r cynllun yn gwarchod yr Afon Dyfrdwy a chynefinoedd gwerthfawr sydd â lefel uchel o fioamrywiaeth uchel, yn ogystal ag adfer cynefinoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan waith adeiladu, neu greu cynefinoedd newydd yn eu lle. Byddai'r cynllun yn ceisio gwneud mwy na digolledu'r ardaloedd hyn yn unig, er mwyn gwella'r ardal leol drwy wneud gwelliannau i'r amgylchedd ac i fioamrywiaeth. Y cynnig yw dymchwel hen


adeiladau'r cyngor, a'r afeilion tai sydd i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o Queensferry. Byddai'r tir hwn yn cael ei droi'n amgylchedd mwy deniadol, ac yn cynnwys manau plannu coed i harddu'r lle a llwybr teithio llesol. Byddai coetir a glaswelltir yn cael eu plannu yn lle'r ffordd galed sydd wrth ymyl y bont bresennol.

Ystyriaethau ar gyfer y gwaith adeiladu arfaethedig

Mae ardal y Cynllun yn cynnwys darnau o dir y byddai angen eu defnyddio dros dro yn ystod y gwaith adeiladu. Yn eu plith mae darn o dir amaethyddol i'r de-ddwyrain o'r bont bresennol, ble byddai angen compownd ar gyfer y safle, ynghyd â mynediad oddi ar Foxes Lane.

Mae cyfleuster all-lwytho Airbus yn safle tua dwy filltir i fyny'r afon o'r A494 ar afon Dyfrdwy, ac arferai gael ei ddefnyddio gan Airbus i lwytho a chludo'r adenydd a fyddai'n cael eu hadeiladu yn eu ffatri ar hyd afon Dyfrdwy i Borthladd Mostyn. Mae angen y safle fel rhan o'r Cynllun i osod ysgraff jacio ar gyfer adeiladu'r bont newydd dros yr afon.

Best performing option



Layout of the best performing option (Option E) to replace the A494 River Dee Bridge



Artists' impression of the best performing option (Option E) to replace the A494 River Dee Bridge looking north towards Garden City

The WelTAG appraisal has scored the best performing option as Option E. This option is scoring well in the WelTAG appraisal due to the following key aspects:

- Strong alignment with the priorities and requirements of the Wales Transport Strategy.
- Minimised construction impact with the bulk of the construction undertaken without disrupting current traffic using the A494.
- Better opportunities to minimise the level of carbon during construction and reuse existing land for biodiversity improvement.
- Reduced impact on third party assets such as the North Wales Coast Railway and public utility supplies such as electricity, water/sewage and gas supply cables and pipes.
- Improved active travel facilities with new links and connections.
- Lower construction carbon and capital cost.

The current best performing option (Option E) consists of constructing a new bridge to carry two lanes of eastbound and westbound traffic and a shared use path for cyclists and pedestrians. The new bridge would be located approximately 15

metres to the southeast of the existing A494 River Dee Bridge. Construction works are proposed to take place 'offline' of the existing highway and allow the road to remain open during the majority of construction.

The key features of the best performing option are:

1. **A new bridge** to carry two lanes of traffic in both directions.
2. **A new shared use path for pedestrians and cyclists**, running along the southeast side of the westbound carriageway. This would connect to the Wales Coast Path and other active travel routes in the area.
3. **Improvements to the existing A494 to the east of where the road passes under the North Wales Coast Railway Line.** This would include introducing a new hard shoulder in each direction connecting to the existing hard shoulders to the east of the River Dee, alignment improvements and sustainable drainage systems.
4. **A new access/exit** to leave the A494 towards the Riverside area just past the river crossing. Road users will also be able to join the A494 from the same junction, turning left towards Queensferry.

5. **Diversion of the Queensferry Drain** (a Natural Resources Wales main river), which is situated on the southeast side of the A494 and currently flows in a culvert beneath it, west of the North Wales Coast Railway Line and in open channel east of the railway line. New sections of open channel would be provided either side of the railway with a section of existing culvert beneath the railway line being retained.

6. **A new river pumping station and drainage outfall to the River Dee.**

7. **Environmental mitigation and biodiversity enhancement works** with earthworks and areas of soft estate including wildflower verges, swales, native woodland plantations and amenity grassland.

8. **Demolition of the existing A494 River Dee Bridge**, subject to confirmation and review of the alternative usages.

Environment

The Scheme would protect the River Dee and habitats of high biodiversity value, and reinstate or replace any habitats impacted by construction. The Scheme would aim to go beyond compensation to enhance the local area through environmental

and biodiversity improvements. The old council depot buildings and derelict houses north-east of Queensferry Interchange are proposed to be demolished. This land would be transformed into a more attractive environment including amenity planting and an active travel path. The hard road surfaces on the approaches to the existing bridge would be removed and replaced with woodland planting and grassland.

Construction considerations

The extent of the Scheme includes some areas of land that would be needed temporarily during construction. These include an area of agricultural land to the south east of the existing bridge, where a site compound would be required along with access off Foxes Lane.

The former Airbus Load Out Facility is a site approximately two miles upstream of the A494 River Dee that was previously used by Airbus to load and transport wings made at their factory down the River Dee to the Port of Mostyn. The site is needed as part of the Scheme to mobilise a jack-up barge for the construction of the new river bridge.

Y cynigion ar gyfer teithio llesol

Active travel proposals



Argraff artist o'r llwybr cerdded a beicio arfaethedig
Artists' impression of the proposed walking and cycling route



Y llwybr troed presennol o dan y bont ar hyd y lan ddeheuol
Current footpath under the bridge along the southern riverbank

Mae newid dulliau teithio yn ganolog i'n polisi trafniadaeth. Mae newid dulliau teithio yn golygu dechrau teithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy, gyda llai o deithiau'n cael eu gwneud mewn ceir preifat a mwy o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy fel defnyddio trafniadaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. Dyma un o brif amcanion Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021.

Bwriedir creu hyd at 3km o lwybrau cerdded a beicio gwell fel rhan o'r Cynllun ac mae'r gwelliannau hyn wedi'u cynnwys yn yr holl opsiynau sy'n cael eu hystyried. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys llwybr di-draffig llawn i feicwyr a cherddwyr dros afon Dyfrdwy, a hwnnw'n cysylltu Llwybr Arfordir Cymru â Chyfnedwfa Queensferry i'r dwyrain o'r afon ac â chanol Queensferry yn y gorllewin.

Bwriedir creu cysylltiadau newydd a gwell hefyd â Station Road a Factory Road. Bydd y llwybrau newydd yn creu cysylltiadau newydd, mwy diogel rhwng cymunedau, manau o ddi-ddordeb a llefydd gwaith. Nod y llwybrau hyn fydd hwyluso opsiynau teithio amgen yn hytrach na defnyddio ceir ar deithiau lleol, a chreu cysylltiadau â Llwybr Arfordir Cymru a Llwybr Beicio Cenedlaethol 568 ar gyfer teithiau pellach.

Bydd y cynigion teithio llesol yn creu mwy o gyfleoedd i Gyngor Sir y Fflint ddarparu mwy o lwybrau teithio llesol yn y dyfodol, ac yn cyflymu'r broses o ddarparu dulliau teithio llesol yn yr ardaloedd cyfagos. Bydd llwybr di-draffig dros afon Dyfrdwy yn galluogi pobl a busnesau ar ddwy ochr yr afon i gysylltu â'i gilydd mewn ffordd fwy cynaliadwy.

At the heart of our transport policy is modal shift. Modal shift is the transition to more sustainable modes of transport, with fewer trips being made by private cars and more trips being made by sustainable modes such as using public transport, walking and cycling. This is a key objective for Llwybr Newydd – The Wales Transport Strategy 2021.

Up to 3km of new and improved walking and cycling routes are proposed as part of the Scheme and these improvements are included on all options considered. The proposed improvements include a new full traffic free route for cyclists and pedestrians over the River Dee connecting the Wales Coast Path east of the River to Queensferry Interchange and the centre of Queensferry in the west. New and improved links are also proposed to Station Road and Factory Road.

The new routes will provide safer new connections between communities and places of interest and works, facilitating alternative journey options to using cars for local journeys and for longer distance journeys with connections to the Wales Coast Path and National Cycle Route 568.

The active travel proposals will open up greater opportunities for Flintshire Council to deliver more active travel routes in future years and speed up delivery of active travel facilities in the surrounding areas. A traffic free route over the River Dee will allow people and businesses on both sides of the river to connect to one another more sustainably.

Rheoli effeithiau'r Cynllun

Managing the Scheme impacts



Yr olygfa bresennol wrth edrych i gyfeiriad Garden City o'r rheilffordd
Current view looking towards Garden City from the railway



Argraff arlunydd o'r opsiwn i ddisodli Pont Afon Dyfrdwy'r A494 sy'n perfformio orau (Opsiwn E), yn edrych tua'r gogledd i gyfeiriad Garden City
Artists' impression of the best performing option (Option E) to replace the A494 River Dee Bridge looking north towards Garden City

Yr effeithiau ar yr amgylchedd

Rhan bwysig o'n gwaith yw deall effaith y Cynllun ar yr amgylchedd a'r gymuned, er mwyn gallu lleihau'r effeithiau negyddol cymaint ag y bo modd a chanfod cyfleoedd i wella ardal y Cynllun lle bynnag y gallwn ni.

Mae afon Dyfrdwy yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd ei gynefinoedd rhynglanwol. Mae morfeydd heli a rhywogaethau fel dyfrgwn a physgod mudol i'w cael yn y cynefinoedd hynny.

Mae Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cael ei gynnal i ddeall a rhagweld beth fydd effeithiau tebygol y Cynllun ar afon Dyfrdwy ac ar yr amgylchedd lleol yn ystod y gwaith adeiladu a phan fydd y Cynllun wedi'i gwblhau. Nod yr Asesiad hwnnw yw asesu effeithiau sylweddol y prosiect ar yr amgylchedd, ac ystyried camau i osgoi neu leihau'r effeithiau hynny, neu i wneud iawn amdany'n nhw. Rydyn ni'n asesu effeithiau'r gwaith adeiladu fel sŵn ac ansawdd aer, ac yn creu dyluniadau ar gyfer creu cynefinoedd a gwaith i wella'r dirwedd. Rydyn ni hefyd yn datblygu cynigion ar gyfer y gwaith adeiladu yn ardal afon Dyfrdwy a'r ardaloedd gwarchoddedig eraill.

Yn ogystal â phrif amcanion trafniadaeth y Cynllun, mae amcanion amgylcheddol wedi cael eu creu. Bydd yr amcanion amgylcheddol hyn yn helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau wrth ddatblygu dyluniad y Cynllun ac yn sicrhau bod digon o dir ar gael i sicrhau unrhyw welliannau amgylcheddol yn y tymor hir.

Effeithiau'r gwaith adeiladu

Mae lleihau effaith y gwaith adeiladu ar yr A494 a'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn ystyriaeth o bwys wrth arfarnu opsiynau'r Cynllun.

Disgwylir mai'r opsiwn sy'n perfformio orau ar hyn o bryd a fydd yn cael yr effaith leiaf yn ystod y gwaith adeiladu o'i gymharu â'r opsiynau eraill ar y rhestr fer. Drwy godi pont sengl newydd i fyny'r afon o'r strwythur presennol, a thrwy osgoi unrhyw waith adeiladu drwy Reilffordd Arfordir y Gogledd, bydd modd gwneud mwyafrif y gwaith adeiladu heb effeithio ar briffordd bresennol yr A494 nac ar y rheilffordd.

Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y gwaith adeiladu o dan y Cynllun yn cymryd dwy neu dair blynedd i'w gwblhau. Disgwylir y bydd yr effaith ar y briffordd bresennol i'w gweld ar ddiwedd y cyfnod adeiladu, pan fydd y ffordd newydd yn cael ei 'chlymu' â'r A494 bresennol.

Environmental impacts

Understanding the impact of the Scheme on the environment and community is an important part of our work, so that we minimise negative effects and identify opportunities to improve the surroundings where we can.

The River Dee is designated as a Special Area of Conservation (SAC) and a Site of Special Scientific Interest (SSSI) due to its intertidal habitats such as salt marsh and species such as otters and migratory fish.

An Environmental Impact Assessment (EIA) is being carried out to understand and predict what the likely impacts the Scheme may be on the River Dee and local environment both during construction and when the Scheme has been completed. The aim of the EIA is to assess the significant effects of the project on the environment and consider measures to avoid, reduce or compensate for them. We are assessing construction effects such as noise and air quality, designing habitat creation and landscape improvement works and developing proposals for construction within the River Dee and other protected areas.

In addition to the main transport objectives of the Scheme, environmental objectives have been developed. The environmental objectives will help to guide the decision-making process in developing the Scheme design and ensure that sufficient land is provided to deliver any long-term environmental enhancements.

Construction impacts

Understanding the need to minimise the impact of construction on the A494 and the local highway network is a key consideration in the Scheme option appraisal.

The current best performing option is expected to have the least impact during construction when compared with the other shortlisted options. Constructing a single new bridge structure upstream of the existing structure and also avoiding any construction through the North Wales Coast Railway line, means the majority of the construction work can be done without affecting the existing A494 highway and the railway line.

Construction of the Scheme is currently estimated to take around two to three years to be complete. The impact on the existing highway is expected to be at the end of the construction stage when 'tying in' the new road to the existing A494.

Sut mae rhoi sylwadau?

How can I comment?

Rydyn ni eisiau clywed eich barn chi am y Cynllun arfaethedig. Gallwn ni wedyn ystyried eich barn a'ch sylwadau wrth greu'r dyluniad terfynol.

Mae modd i chi roi sylwadau mewn nifer o ffyrdd:

- **Ar-lein:** drwy gwblhau holiadur sydd ar gael ar www.llyw.cymru/cynllun-adnewyddu-pont-afon-dyfrdwy-a494
- **E-bost:** A494riverdeebridgeconsultation@gov.wales – rhowch 'Cynllun Pont Newydd Afon Dyfrdwy ar yr A494' fel pwnc.
- **Yn ysgrifenedig i:** Rhadbost A494.
- **Wyneb yn wyneb:** llenwch y ffurflen ymateb a fydd ar gael yn yr arddangosfa gyhoeddus sydd i'w chynnal yn Eglwys Sant Andrew, Garden City, CH5 2HN ar rhwng 10am a 7pm ar Ddydd Mawrth 21 Ionawr.

Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg rhwng **dydd Llun 9 Rhagfyr 2024 a 11.59yh nos Fawrth 4 Mawrth 2025**.

Cyflwynwch eich ymateb erbyn hanner nos, nos **Fawrth 4 Mawrth 2025**.

Gallwch hefyd gael mynediad i'r dudalen ymgynghori drwy'r cod QR isod:



Y camau nesaf

Byddwn ni'n adolygu'r holl sylwadau a'r awgrymiadau ar ôl i Ymgynghoriad Cyhoeddus Cam 2 WeITAG gau. Byddwn ni'n llunio adroddiad i grynhoi'r sylwadau a ddaw i law yn yr ymatebion.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru'n ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori wrth ddod i benderfyniad ar opsiwn a ffafrit.

Bydd diweddariadau ar gynnydd y Cynllun yn cael eu cyhoeddi ar wefan prosiect Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru/a494-pont-afon-dyfrdwy.

Amserlen arfaethedig y Cynllun Proposed Scheme timeline	Gweithgaredd Target Date	Dyddiad Targed Activity
2024	Rhagfyr 2024–Mawrth 2025 December 2024–March 2025	Ymgynghoriad Cam 2 WeITAG WeITAG Stage 2 Consultation
	Mai 2025 May 2025	Cam 2 WeITAG (achos busnes amlinellol) WeITAG Stage 2 (outline business case)
2025	Mehefin 2025 June 2025	Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd Environmental Impact Assessment
	Gorffennaf 2025 July 2025	Cam 3 WeITAG (achos busnes) WeITAG Stage 3 (business case)
	Medi 2025 September 2025	Cyhoeddi Gorchmynion Drafft Draft Orders Published
2026	Tymor yr hydref 2025 Autumn 2025	Ymgynghori ar y Gorchmynion Drafft Draft Orders Consultation
	Gwanwyn/Haf 2026 Spring/Summer 2026	Ymchwiliad Cyhoeddus Public Inquiry
	Haf 2026 Summer 2026	Penderfyniad y Gweinidog i Fwrw Ymlaen Minister's Decision to Proceed
2027	Tymor yr hydref 2026 Autumn 2026	Gwaith Galluogi ar y Safle (y dyddiad cynharaf posibl) Site Enabling Works (earliest possible date)
	Gaeaf/Gwanwyn 2027 Winter/Spring 2027	Dechrau'r Gwaith Adeiladu Start Construction Works
	Haf/Tymor yr hydref 2029 Summer/Autumn 2029	Cwblhau'r Gwaith Adeiladu Complete Construction Works

We want to hear what you think about our proposed Scheme. We can then consider your views and comments when shaping the final design.

There are several ways you can comment:

- **Online:** by completing a questionnaire which is available at www.gov.wales/a494-river-dee-bridge-replacement-scheme
- **Email:** A494RiverDeeBridgeConsultation@gov.wales – please include 'A494 River Dee Bridge Replacement Scheme' in the subject line.
- **In writing to:** Freepost A494.
- **In person:** complete the consultation response form provided during the public exhibition taking place event at St Andrew's Church, Garden City, CH5 2HN between 10am and 7pm on **Tuesday 21 January**.

The consultation will run from **Monday 9 December 2024** until **11.59pm Tuesday 4 March 2025**.

Please submit your response by midnight **Tuesday 4 March 2025**.

You can also access the consultation page via the below QR code:



Next steps

We will review all comments and suggestions once the WeITAG Stage 2 public consultation has closed. We will produce a report to summarise the feedback responses.

The Cabinet Secretary for Transport and North Wales will take into account the results from this consultation exercise when making a decision on a preferred option.

Updates on the Scheme's progress will be provided on the Welsh Government's project website: www.gov.wales/a494-river-dee-bridge.